# DATBLYGU EICH BUSNES

## Rhagfyr 2017 – Chwefror 2018

FARMING connect cyswllt FFERMIO

### Statws RAG


Coch: Dan y targed · Oren: Bron â chyrraedd y targed · Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Cyfanswm sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 1/10/2015**


**8519** BUSNES and **16731** UNIGOLYN

### Gwasanaeth Cynghori

Ceisiadau a Gymeradwywyd





Ceisiadau a Gymeradwywyd




**Ymatebion Gwerthuso'r Gwasanaeth Cynghori 1/10/2015 – 28/2/2018**

A yw arweiniad y cynghorydd wedi eich cynorthwyo i baratoi set glir o argymhellion?




*"Cyngor cadarn iawn a gweledigaeth glir o ran gwybodaeth a strategaeth er mwyn adeiladu busnes cynaliadwy ar gyfer cenhedlaeth nesaf y fferm deuluol."*

*"Falch iawn gyda'r cyngor a dderbyniais yn ymwneud â maeth – syniadau defnyddiol ac effeithiol iawn."*

*"Gwasanaeth ardderchog!"*

### Cymorthfeydd un-i-un

Mae cymorthfeydd yn cynnig apwyntiad un-i-un awr o hyd gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

**Targed blynyddol = 60 Targed a gyflawnwyd = 28**


Un i Un

- **6** CYMHORTHFA ADOLYGU BUSNES DIGIDOL
- **5** CYMHORTHFA OLYNIAETH
- **4** CYMHORTHFA RHEOLAETH ARIANNOL
- **6** CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO
- **3** CYMHORTHFA TG
- **4** CYMHORTHFA CYNLLUNIO

**Cymorthfeydd Marchnata ac Arallgyfeirio:**

**6** CYMHORTHFA **31** BUSNES YN MYNYCHU

Ymholiadau fesul sector




### Cymorthfeydd Rheolaeth Ariannol

Cynhaliwyd 4 cymhorthfa Rheolaeth Ariannol gyda Pan Wales ym mis Ionawr. Y pynciau dan sylw oedd:

PENSIWN · BUDDSODDIADAU ODDI AR Y FFERM · CYLLIDEBU · ARBEDION

Adborth gan fuddiolwyr:

*"Rwyf wedi dysgu bod cymorth ar gael i ffermwyr ac nad oes angen i mi fod â chywilydd neu deimlo fel methiant am ddefnyddio'r gwasanaethau hyn."*

*"Mae angen i mi fod yn ymwybodol o fy sefyllfa ariannol."*

*"Rwyf wedi dysgu sut i ariannu prosiect newydd."*

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

…Sioeau teithiol, digwyddiadau galw heibio a gweithdai penodol i'r sector.

**Targed blynyddol = 70**   **Targed a gyflawnwyd = 13**

DIGWYDDIAD CDP
**5**

FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL
**6**

PROSIECT GWAREDU BVD
**1**

CYNLLUN CENEDLAETHOL JOHNE'S
**1**



Cynhaliwyd **13** DIGWYDDIAD gyda **614** O FYNYCHWYR

## Astudiaeth Achos

Cynhaliwyd 2 Seminar Arallgyfeirio yn canolbwyntio ar ffermio da byw amgen sy'n anghyffredin yn niwydiant amaeth y DU. O ganlyniad, cafodd y mynychwyr fewnwelediad addysgiadol i'r marchnadoedd a'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn y byd ffermio Prydeinig.

Gwahoddwyd 3 siaradwr gwadd i siarad am eu profiadau a rhannu eu gwybodaeth ar arallgyfeirio i ffermio da byw amgen. Siaradodd Carrie Rimes, gwneuthurwraig caws llaeth defaid sydd wedi ennill gwobrau yn y maes, am ei phrofiad o ddysgu'r grefft o gynhyrchu caws yn Ffrainc a datblygiad ei busnes yn ddiweddar. Rhoddodd Rob Cumine fewnwelediad i'w gwmni Natural Wagyu sy'n cyflenwi bîff Wagyu wedi'u bwydo â glaswellt i farchnadoedd yn Llundain am bris premiwm. Eglurodd ei bolisi a yrrir gan eneteg sy'n sicrhau cynnyrch o safon uchel. Rhannodd Alan Sneddon o'r Venison Advisory Service ei wybodaeth helaeth am ffermio ceirw yn dilyn ei brofiad o chwarae rôl allweddol yn sefydlu a rheoli gyr o geirw mwyaf y DU. Bu hefyd yn trafod yr elfen rheoli amser o reoli rhaglenni geneteg ceirw mawr yn ogystal â sut lwyddodd i sefydlu ei hun fel ffigwr uchel ei barch yn y diwydiant.

## Grwpiau Trafod


Mae grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn galluogi busnesau i ddysgu gan ei gilydd, i drafod heriau, ystyried cyfleoedd ac o bosibl i ddarganfod ffyrdd newydd neu well o wneud pethau.

**126** CYFARFOD gyda **1074** YN MYNYCHU

## Astudiaeth Achos

Cafodd Grŵp Trafod Bîff y Gŵyr gyfarfod gyda David Hendy ym mis Ionawr i drafod maeth bîff ar gyfer magu, tyfu a phesgi anifeiliaid bîff. Cafodd y pwnc ei adnabod gan y grŵp fel maes blaenoriaeth ar gyfer eu busnesau. Roedd aelodau'r grŵp yn awyddus i gael gwybodaeth am y ffactorau allweddol o ran rhoi'r dognau cywir i'w da byw fel y gallant gyflawni'r cyfraddau twf a'r graddfeydd pesgi gorau ar gyfer eu mentrau da byw.

Amlygodd David tri maes allweddol dognau bwyd ar gyfer magu, tyfu a phesgi gwartheg bîff.




Dywedodd David wrth y ffermwyr eu bod yn rheolwyr rwmen pan maent yn bwydo eu da byw a'i bod hi'n hollbwysig sicrhau bod rwmen yr anifeiliaid yn gweithio'n effeithiol, a fydd o fudd i gynhyrchiad yr anifail yn ogystal ag iechyd yr anifail yn gyffredinol. Atgoffodd David y ffermwyr bod angen i'r pH rwmen delfrydol fod rhwng 6.2-6.5 ac os yw hyn yn anghywir, gall gael effaith difrifol ar iechyd yr anifail. Mae'n bwysig ceisio darparu'r anifeiliaid gyda'r un porthiant 365 diwrnod y flwyddyn.

Dylai busnesau fod yn canolbwyntio ar:

**Dewis yr anifail cywir gan ddefnyddio'r system gywir gyda'r rheolaeth a'r maeth cywir ar gyfer y farchnad gywir.**

Pwyntiau allweddol i'w cofio:

- Mae rwmen yn cymryd tair wythnos i sefydlu dogn newydd
- Bwydwch yr anifeiliaid beth y maent eisiau ei fwyta ac nid pan ydych chi eisiau eu bwydo gan sicrhau bod cyflenwad cyson o'r un porthiant ar gael iddynt
- Pesgi a chael gwared yr anifeiliaid cyn gynted â phosib
- Bydd rwmen yn addasu i ddogn sy'n fwy seiliedig ar borthiant (dognau magu a thyfu)
- O ran bwydo dwysfwydydd ar gyfer dognau pesgi, dechreuwch gyda ½ kilo'r diwrnod gan ddechrau ychwanegu ar y trydydd diwrnod
- Mae bridiau brodorol yn tueddu i gael eu pesgi ar ddogn dyfu

## Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol Cyswllt Ffermio

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau tudalen unigryw (Rhagfyr 17 – Chwefror 18) | 63,443 |
| Cyfartaledd yr amser a dreulir ar y wefan | 00:01:44 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter (28.02.2018) | 3,997 |
| Nifer o hoffwyr ar Facebook (28.02.2018) | 7,042 |

Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein:

**Facebook 12/12/2017**

Join us for our 'Farming for the Future' events (3rd application window). We will be travelling across Wales during January and early February. Remember that attendance is essential in order to qualify for the Farm Business Grant (FBG).

Pobl a Gyrhaeddwyd – **5,049**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu – **22**

**Facebook 06/01/2018**

What do you know about Wagyu beef?

Come along to 'Livestock Diversification Opportunities' 09/01/2018 in Nantyffin, Pembrokeshire to find out more!

Justin Scale will be there to discuss free-range poultry too!

Pobl a Gyrhaeddwyd – **4,010**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu – **26**